# Iechyd a Diogelwch

## Adroddiad Blynyddol

2023/2024

Iechyd, Diogelwch a Lles y Campws
Tachwedd 2024

www.bangor.ac.uk/hss/index.php.cy

# Uchafbwyntiau

Darperir dangosyddion perfformiad thematig ychwanegol eleni i roi gwell cynrychioliad o'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, o welliannau mewn perfformiad, ac er mwyn amlygu materion penodol sy'n peri pryder.

Roedd gwelliant sylweddol yn nifer y staff a gwblhaodd yr hunanasesiad a'r hyfforddiant ar ddefnyddio cyfrifiaduron, ac mae'r perfformiad bellach yn agos at y targed.

Adroddir am ostyngiad sy'n peri pryder yn nifer y staff newydd sy'n cwblhau'r sesiwn gynefino iechyd a diogelwch, sy'n is na pherfformiad y llynedd o 67%. Mae angen gweithredu i wella cyfraddau cynefino staff newydd.

**Hunanasesiad Defnyddwyr Cyfrifiaduron**

**83%**

Gwelliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol (51%).

**Cynefino iechyd a diogelwch staff newydd wedi ei gwblhau**

**41%**

(104 allan o 253 o staff newydd 'perthnasol').

Cafodd llai o staff eu hanafu o gymharu â'r 21.5 / 1000 o weithwyr a anafwyd y llynedd. Rhagwelir y bydd nifer yr achosion yn cynyddu yn y dyfodol, yn unol â'r pwyslais cynyddol ar adrodd.

Bu gostyngiad yn nifer y digwyddiadau a barodd i staff golli amser o'r gwaith i 4, a doedd dim un ohonynt yn ddigwyddiad o bwys.

**Anafiadau i Staff**

**15.7**

**/1000**

Cyfraddau is o gymharu â chyn y pandemig.

**Cyfanswm y damweiniau a achosodd i staff golli amser o'r gwaith**

**4**

Cryn dipyn yn llai na'r 11 achos a adroddwyd y flwyddyn flaenorol.

Amlygir perfformiad gwael wrth gofnodi teithiau tramor, ac amcangyfrifir nad yw 43% o'r teithiau a wneir yn cael eu cofnodi. Yn benodol gall hyn gael effaith andwyol ar drefniadau mewn argyfwng ac ar wytnwch diogelwch.

Mae nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd ar safleoedd adeiladu a chynnal a chadw wedi mwy na dyblu mewn 2 flynedd, ac ni nodwyd unrhyw bryderon sylweddol.

**Camau Rheoli Teithio Dramor**

**57%**

O deithiau tramor wedi'u cofnodi'n gywir ar y porth teithio canolog ar gyfer yswiriant, diogelwch a manylion cyswllt mewn argyfwng.

**Archwiliadau safleoedd adeiladu**

**95%**

o'r 405 o archwiliadau a wnaed wedi canfod bod safonau da yn cael eu defnyddio, gyda 5% yn amlygu materion bychan neu gymedrol. Ni nodwyd unrhyw risgiau mawr.

**Sylwer:** *Ni adroddir gan iechyd a diogelwch bellach am absenoldebau salwch staff a'r rhesymau am yr absenoldebau hynny, na chymharid â chyfraddau cenedlaethol.*

**Mynegai** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| | Dangosyddion Perfformiad: Crynodeb | |
| 1. | Polisïau a Dogfennau Allweddol Iechyd a Diogelwch | 2 |
| 2. | Archwiliadau, Perfformiad, Dadansoddi | 2 |
| 3. | Camau Gorfodi ac Ymweliadau Arolygu Statudol | 6 |
| 4. | Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch | 6 |
| 5. | Damweiniau a Digwyddiadau | 9 |
| 6. | Arolygu Iechyd | 14 |
| 7. | Larymau Tân yn Canu | 14 |
| 8. | Achosion Sifil i Hawlio Iawndal (cysylltiedig ag iechyd a diogelwch) | 16 |
| 9. | Ystadegau’r Wefan | 16 |

## 1. POLISÏAU A DOGFENNAU IECHYD A DIOGELWCH ALLWEDDOL

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o ddogfennau iechyd a diogelwch sefydliadol a gyflwynwyd o'r newydd, neu a gafodd eu diwygio neu eu diddymu yn ystod y flwyddyn.

### • POLISÏAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Ni chyflwynwyd unrhyw bolisïau newydd yn 2023/24.

Cafodd y polisïau canlynol eu diwygio ac yna eu hadolygu gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn ystod y flwyddyn:

- Rheoli Asbestos
- Iechyd a Diogelwch Gwaith Maes
- Gweithrediadau Dronau
- Rheoli Dirgrynu Dwylo a Breichiau

### • POLISÏAU A DDIDDYMWYD

Cafodd y **Polisi Iechyd a Diogelwch Pobl Ifanc yn y Gwaith** ei ddirymu, o fod wedi cael ei atal ers rhai blynyddoedd.


Bellach mae ymrwymiad penodol ynghylch iechyd a diogelwch plant wedi'i gynnwys ym Mholisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, gan olygu nad oes angen polisi ar wahân.

Mae canllawiau a gwybodaeth ar waith sydd wedi'u teilwra ar gyfer iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc, ynghyd â threfniadau rheoli priodol ar gyfer amddiffyn plant a chyflogi plant.

## 2. ARCHWILIADAU, PERFFORMIAD, DADANSODDI

Adroddiadau cryno am archwiliadau mewnol arwyddocaol ac am adolygiadau o themâu risg a'r Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol.

### • ADOLYGIAD BIOGYFANSODDION

| DANGOSYDD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Nodwyd nifer o bryderon a meysydd i'w gwella.

Cynhaliwyd adolygiad iechyd a diogelwch yn dilyn tri digwyddiad arwyddocaol yn y ganolfan. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mai 2024 ac ynddo roedd canfyddiadau ar ôl cyfweld â staff, dosbarthu holiaduron a chynnal ymweliadau safle. Nodwyd 18 o wersi a gwnaed 20 o argymhellion craidd, o fewn yr 8 thema a ganlyn:

- Diwylliant Diogelwch
- Rheoli Diogelwch
- Dysgu o Ddigwyddiadau a Damweiniau y bu bron iddynt â Digwydd
- Rheoli Newid
- Gwneud Penderfyniadau
- Pwysau Masnachol ac Ariannol
- Ffactorau Dynol, Hyfforddiant a Datblygu
- Goruchwyliaeth yn y Colegau a'r Brifysgol

Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau, sy'n parhau i fonitro cyflawniad a chynnydd. Gweithredir yr argymhellion trwy Bennaeth Gweithredol dros dro'r Ganolfan Biogyfansoddion.

### • ADOLYGIAD R.V. PRINCE MADOG

| DANGOSYDD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Canfuwyd bod sicrwydd Iechyd a Diogelwch yn dda, ac mae cyfleoedd ar gyfer gwelliant pellach wedi'u nodi.

Defnyddir Llong Ymchwil y Prince Madog yn bennaf i gynnal ymchwil wyddonol, i dirfesur ac i addysgu, a Phrifysgol Bangor yw'r cleient pennaf. PRIMOS sy'n berchen ar y Prince Madog, trwy Gytundeb Menter ar y Cyd (fel y'i diwygiwyd) rhwng dau gyfranddaliwr, sef Prifysgol Bangor ac O.S. Energy (UK) Cyf.

Dechreuodd yr Adolygiad Iechyd a Diogelwch, sy'n canolbwyntio ar risgiau iechyd a diogelwch i staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor, ym mis Hydref 2023. Roedd yn canolbwyntio ar 6 agwedd allweddol, sef:

- Trefniadau Cyffredinol
- Mordeithiau ysgol – addysgu
- Mordeithiau ysgol – ymchwil
- Staff Technegol yr Ysgol
- Siartro gan Drydydd Parti
- Goruchwyliaeth ar lefel Bwrdd a Rheolwyr

Ni nodwyd unrhyw risgiau sylweddol i'r Brifysgol. Argymhellodd yr adolygiad nifer o gyfleoedd i wella diogelwch a threfniadau rheoli amgylcheddol a gwytnwch.

Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau, ac mae'r argymhellion yn cael eu gweithredu, fel y bo'n briodol, drwy Fwrdd PRIMOS a thrwy'r Ysgol Gwyddorau Eigion.

- **ADOLYGIAD CYMORTH CYNTAF**

| DANGOSYDD PERFFORMIAD |  |
| --- | --- |

Canfu'r Adolygiad fod lefel y gydymffurfiaeth â deddfwriaeth Cymorth Cyntaf yn dda.

Cadarnhaodd yr Adolygiad fod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol craidd ar gyfer darparu cymorth cyntaf ar draws pob safle, mewn perthynas â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf), COSHH a gofynion penodol o ran Gofal Plant.

Canfuwyd bod:

- Mwy nag 11% (235) o staff y Brifysgol yn swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig ar lefelau amrywiol, gan gynnwys Cymorth Cyntaf yn y Gwaith a Chymorth Cyntaf Gwaith Maes. Mae mwyafrif y swyddogion cymorth cyntaf yn ymwneud â'r gwyddorau a gwaith maes.
- Mae dros 90 o flychau cymorth cyntaf yn y sefydliad, gan gynnwys y rhai yr eir â nhw ar deithiau maes.
- Mae 24 o unedau diffibrilio (AED) wedi'u lleoli ar draws yr holl safleoedd, ac mae 1 ar fwrdd Llong Ymchwil y Prince Madog.
- Mae trefniadau cymorth cyntaf ar gyfer peryglon a gweithgareddau risg uwch yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan.

Gwneir argymhellion i wella safonau ymhellach, gan anelu at wella cadernid a hygyrchedd y trefniadau presennol. Mae argymhelliad hefyd i ymchwilio i weld a ellir gwneud rhai o'r diffibrilwyr yn fwy hygyrch, yn enwedig yn y lleoliadau risg is ar Ffordd y Coleg.

Yr argymhelliad olaf a mwyaf nodedig yw ymchwilio i weld a oes angen uwch-dîm Cymorth Cyntaf bellach i leddfu effaith yr anawsterau presennol yn sgil amseroedd ymateb ambiwlansys i argyfyngau sydd ddim yn gritigol. Nodir bod amseroedd ymateb ambiwlansys i ddigwyddiadau critigol yn parhau i fod yn dda iawn. Mae'r cynnig hwn yn cael ei werthuso ymhellach.

- **ADOLYGIAD O HYSBYSIADAU TEITHIO DRAMOR**

| DANGOSYDD PERFFORMIAD |  |
| --- | --- |

Canfuwyd bod cydymffurfiaeth â gofynion polisi'r Brifysgol o ran hysbysu am bob taith dramor yn wael.

Cynhaliwyd adolygiad i nodi, ar draws yr holl lwybrau caffael amrywiol, a gwerthuso hysbysiadau teithio dramor mewn cyfnod adolygu penodol dros 3 mis.

Canfuwyd nad oedd oddeutu **43%** o'r achosion o deithio dramor heb eu cofnodi ar y Porth Hysbysu ac Yswiriant Teithio Tramor. O ganlyniad, nid oedd cofnod canolog o'r teithiau hynny ac nid oedd tystiolaeth bod asesiad risg (gan gynnwys risg i iechyd y teithwyr) wedi'i gynnal, ac ni chyhoeddwyd Nodyn Yswiriant neilltuol ar eu cyfer.

Mae cofnodi teithiau tramor ar y Porth Yswiriant yn un o ofynion Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ar Deithio Dramor ac mae'n hanfodol ar gyfer trefniadau rheoli argyfyngau'n dda.

Mae'r ymarfer o gofnodi teithiau tramor hefyd yn cynhyrchu asesiad risg sylfaenol ar gyfer teithio, sy'n cadarnhau bod y sefyllfa o ran iechyd a diogelwch yn y wlad y teithir iddi a'r gwledydd y teithir trwyddynt ar y ffordd wedi'u hadolygu, a bod argymhellion o ran iechyd a brechiadau wedi'u gwerthuso, a bod manylion cyswllt mewn argyfwng wedi'u cofnodi.

Mae'r mater hwn wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau ac mae'r camau gweithredu'n cael eu harwain gan y Dirprwy Is-ganghellor dros Ymgysylltu Byd-eang.

- **COLEGAU / GWASANAETHAU – TREFNIADAU RHEOLI**

| | |
|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** |  |

Yn gyffredinol, dangosir perfformiad sefydlog heb unrhyw welliant neu ddirywiad sylweddol.

Adroddodd pob coleg, a gwasanaeth proffesiynol, ynghyd ag Undeb y Myfyrwyr, M-SParc a'r Ganolfan Rheolaeth, ar eu trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yn erbyn nifer o fesuriadau cyffredin.

Mae perfformiad cyfartalog pob Coleg a Gwasanaeth Proffesiynol yn cael ei werthuso gan ddefnyddio 9 o'r mesuriadau hynny (gyda pherfformiad cymharol y flwyddyn flaenorol mewn cromfachau), fel a ganlyn:

| Eitem | % | Naratif |
|---|---|---|
| Dogfennaeth: **Polisi Iechyd a Diogelwch** | **93%**<br>(93%) | Mae gan bob Coleg a'r 11 Gwasanaeth Proffesiynol Bolisi Iechyd a Diogelwch |
| Dogfennaeth: **Asesiad Risg Cyffredinol:** | **93%**<br>(93%) | Mae gan bob Coleg a'r 11 Gwasanaeth Proffesiynol Asesiad Risg Cyffredinol |
| Pennaeth/Cyfarwyddwr yn cwrdd â'r Swyddog/Cydlynydd Iechyd a Diogelwch | **93%**<br>(80%) | ○ Mae Pennaeth pob Coleg a'r 11 o Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Proffesiynol yn cwrdd â'u Swyddog / Cydlynydd Iechyd a Diogelwch i drafod iechyd a diogelwch. |
| Pwyllgor / Corff Iechyd a Diogelwch | **93%**<br>(100%) | ○ Mae gan 3 Choleg a 3 Gwasanaeth Proffesiynol Bwyllgor Iechyd a Diogelwch<br>○ Mae 8 Gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd ffurfiol eraill i drafod iechyd a diogelwch<br>○ Dim ond 1 Gwasanaeth sydd heb fecanwaith hollgyffredinol i drafod materion Iechyd a Diogelwch. |
| Cadeirydd Pwyllgor/Corff Iechyd a Diogelwch | **100%***<br>(100%*) | Mae pob Coleg / Gwasanaeth a chanddynt strwythur Pwyllgor / Cyfarfod Iechyd a Diogelwch yn nodi eu bod yn cael eu cadeirio gan Bennaeth y Coleg / Cyfarwyddwr, neu gan enwebai sy'n uwch-aelod o staff (e.e. dirprwy)<br><br>* o blith y rhai sydd â strwythur cyfarfodydd |
| Ymgynghori â Staff | **93%**<br>(93%) | Mae pob Coleg a'r 11 Gwasanaeth Proffesiynol yn datgan eu bod yn ymgynghori â staff ynghylch materion iechyd a diogelwch, lle bo'n berthnasol. |
| Archwiliadau Iechyd a Diogelwch | **60%**<br>(60%) | ○ Cadarnhaodd 3 (2) Choleg a 6 (7) Gwasanaeth bod y Pennaeth / Cyfarwyddwr wedi cymryd rhan mewn Archwiliadau Iechyd a Diogelwch<br>○ Datganodd 3 Gwasanaeth bod y Cydlynydd Iechyd a Diogelwch neu uwch-aelod o staff wedi cynnal archwiliadau.<br>○ Mae gan 2 wasanaeth ddyddiadau wedi'u hamserlennu cyn diwedd 2024<br>○ Wnaeth 1 Gwasanaeth ddim darparu gwybodaeth. |
| Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd | **60%**<br>(80%) | Dywedodd 9 Coleg/Gwasanaeth fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant cynefino yn lleol, dywedodd 6 nad oedd yr holl staff newydd wedi cael hyfforddiant cynefino.<br>(Nodyn: 'Rhai' oedd ymateb 1 Coleg gan adlewyrchu anawsterau o ran dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth gan nad oes mecanwaith ffurfiol ar gyfer gwneud hynny ar hyn o bryd) |
| Diogelwch Tân | **93%**<br>(93%) | Cadarnhaodd pob Coleg ac 11 o'r Gwasanaethau Proffesiynol bod ganddynt drefniadau ar waith i roi gwybod i staff a myfyrwyr am y camau y dylent eu cymryd os bydd larwm tân yn canu.<br>(Sylwer: 'Rhai' oedd ymateb 1 gan ei bod yn anodd dangos tystiolaeth) |

Sylwer: Mae'r gostyngiad mewn perfformiad o ran darparu sesiynau cynefino iechyd a diogelwch i staff newydd yn lleol yn bryder, yn enwedig o ystyried hynny ochr yn ochr â pherfformiad gwael o ran darparu sesiynau cynefino iechyd a diogelwch ar lefel Prifysgol. Dylai cyflwyno Hyfforddiant Diweddaru Iechyd a Diogelwch gorfodol i'r holl staff yn 2024/25

leihau'r risg posib a fyddai wedi deillio o'r ffaith nad oedd nifer cynyddol o staff wedi cael hyfforddiant cynefino iechyd a diogelwch ar ôl cael eu penodi.

- Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol Unigol

Rhoddir sgôr yn unigol i Golegau a Gwasanaethau Proffesiynol gan ddefnyddio 13 o fesuriadau, sy'n cynnwys polisi, ymgynghori â staff a chyfranogiad y Pennaeth a'r Cyfarwyddwr mewn archwiliadau iechyd a diogelwch. Darperir perfformiad y flwyddyn flaenorol mewn cromfachau.

| **Coleg** | **% Perfformiad** |
|---|---|
| Coleg Meddygaeth ac Iechyd | **80%** (80%) |
| Coleg Gwyddoniaeth a Pheirianneg | **87%** (87%) |
| Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas | **87%** (87%) |
| **Gwasanaeth Proffesiynol** | **% Perfformiad** |
| Gwasanaethau Campws | **92%** (100%) |
| Canolfan Bedwyr | **100%** (100%) |
| Gwasanaethau Digidol | **92%** (85%) |
| Gwasanaethau Cyllid | **54%** (46%) |
| Adnoddau Dynol | **85%** (85%) |
| Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu | **54%** (62%) |
| Gwasanaethau Myfyrwyr | **92%** (92%) |
| Undeb y Myfyrwyr | **92%** (92%) |
| Y Ganolfan Rheolaeth | **100%** (100%) |
| Swyddfa'r Is-ganghellor | **85%** (77%) |
| Strategaeth, Cynllunio ac Ymchwil | **92%** (100%) |
| Parc Gwyddoniaeth Menai | **100%** (85%) |

Mae pob Coleg yn parhau ar yr un lefel perfformiad â'r flwyddyn flaenorol.

Llwyddodd 3 Gwasanaeth Proffesiynol i gael sgôr cydymffurfio o 100% a gwellodd 3 ar eu perfformiad ers y flwyddyn flaenorol.

- **RHEOLI RISG CEMEGOL A BIOLEGOL**

Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol y Brifysgol sy'n goruchwylio agweddau iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â:

- Defnyddio cemegion peryglus (defnydd mewn labordai a defnydd sy'n gysylltiedig â labordai)
- Bioberyglon
- Addasu Genynnol

Mae nifer o arbenigwyr ym maes diogelwch cemegol, bioberyglon ac addasu genynnol yn aelodau o'r Pwyllgor ac maent yn cyfarfod ddwywaith bob blwyddyn. Dim ond 1 mater o bryder a nodwyd gan yr Is-bwyllgor, sef materion hanesyddol yn ymwneud â rheoli'r Labordy Ymchwil Canser o ddydd i ddydd.

Nodir bod Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau'r Brifysgol ers hynny wedi gofyn i adolygiad o'r cyfleuster gael ei gynnal gan y tîm iechyd a diogelwch, rheolwyr y coleg ac arbenigwr ar fioberyglon. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymweliadau dirybudd gan Bennaeth y Coleg a Rheolwr y Coleg, a nifer o arolygiadau wedi eu hamserlennu.

Cynhyrchwyd adroddiad, a chymerwyd camau i fynd i'r afael â phroblemau a phryderon.

Yn dilyn yr Adolygiad mae gwelliannau sylweddol i'w gweld yn y ganolfan ac nid oes unrhyw bryderon iechyd a diogelwch sylweddol yn parhau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd eraill o bryder sylweddol yn ystod y flwyddyn.

- **RHEOLI RISG YMBELYDREDD**

Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydrol y Brifysgol sy'n goruchwylio gwaith ymbelydredd gwyddonol, defnydd o belydr-X a laserau pŵer uwch. Yn ystod 2023/24, cyfarfu'r Is-bwyllgor ar ddau achlysur.

Ni chafodd pryderon sylweddol am iechyd a diogelwch eu nodi yn ystod y flwyddyn, er bod nifer fach o faterion lleol wedi cael eu hamlygu a naill ai wedi eu cael eu datrys neu yn y broses o gael eu datrys. Nodwyd 1 'arfer gwael' o ddefnyddio laser.

Ymwelodd Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd arbenigol allanol y brifysgol â phob man perthnasol (nad ydynt yn ymwneud â laser) yn ystod y flwyddyn i gadarnhau bod y gofynion deddfwriaethol ac arferion da yn cael eu bodloni. Nid oedd unrhyw ganfyddiadau andwyol arwyddocaol o'r ymweliadau hynny.

Mae llwyddiant parhaus agweddau ar ymchwil arbenigol yn y Brifysgol wedi golygu fod swm a chymhlethdod posibl gwaith gyda deunyddiau ymbelydrol yn cynyddu ymhellach, a chedwir trosolwg trwy drefniadau rheoli iechyd a diogelwch lleol, a thrwy gefnogaeth ychwanegol gan y Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd a chan Swyddogion y Brifysgol.

Mae’r heriau sy'n gysylltiedig â defnydd cynyddol o sylweddau ymbelydrol wedi eu nodi ac mae'n fater y mae'r Is-bwyllgor yn ymwybodol ohono a bydd yn cadw llygad arno.

## 3. CAMAU GORFODI AC YMWELIADAU AROLYGU STATUDOL

Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2023/24, ac ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau.

- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Ymwelodd arolygiaeth arbenigol y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch ym mis Hydref 2023 i asesu cydymffurfiad â Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig). Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth, ac roedd yr ymweliad yn gadarnhaol a chefnogol iawn.

## 4. HYFFORDDIANT IECHYD A DIOGELWCH

Mae nifer o gyrsiau wedi eu darparu neu eu hwyluso trwy'r tîm Iechyd a Diogelwch canolog, gan gynnwys Rhaglen Gynefino a Diweddaru i Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch, cymhwyster Rheoli'n Ddiogel IOSH, hyfforddiant Ymchwilio i Danau, hyfforddiant Aseswyr Cyfarpar Sgrin Arddangos, hyfforddiant Arllwysiad Olew a chyrsiau Cymorth Cyntaf.

| Blwyddyn | Nifer y Cyrsiau / Sesiynau | Staff a Myfyrwyr Ôl-radd |
|---|---|---|
| **2023/24** | **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | **1,014** |
| | *34 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd* | *130* |
| | *Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein* | *780* |
| | *Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein* | *104* |
| **2022/23** | **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | **1,148** |
| | *45 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd* | *161* |
| | *Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein* | *755* |
| | *Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein* | *232* |
| **2021/22** | **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | **408** |
| | *31 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd* | *86* |
| | *Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein* | *158* |
| | *Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein* | *164* |
| **2020/21** | **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | **2,898** |
| | *8 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd* | *25* |
| | *Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein* | *154* |
| | *Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein* | *125* |
| | *Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Covid ar-lein* | *2594* |

Nid oes cofnodion ar gael yn ganolog o'r hyfforddiant iechyd a diogelwch a ddarperir yn lleol gan Golegau a Gwasanaethau Proffesiynol, nac o’r hyfforddiant a geir trwy ddarparwyr allanol.

Gofynnir i Golegau a Gwasanaethau Proffesiynol gadw cofnodion lleol. Bydd aelodau unigol o staff yn gallu cofnodi hyfforddiant lleol ar iechyd a diogelwch o fis Medi 2024, trwy iTrent.

Mae cofnodi hyfforddiant a mynediad at y cofnodion hynny at ddibenion gwerthuso ac adrodd yn parhau i fod yn bryder.

- **SESIYNAU CYNEFINO CYFFREDINOL I’R STAFF**

| | |
|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** |  |


Roedd perfformiad 2023/24 yn wael iawn, gyda dim ond 41% o staff newydd yn cael sesiwn gynefino am iechyd a diogelwch.

Mae **104** allan o **253** aelod newydd (*fel y bo'n berthnasol*) o staff ar gontract wedi cwblhau Sesiwn Gynefino Gyffredinol y Brifysgol i Staff ar-lein, a oedd yn cael eu ddarparu fel rhan o becyn hyfforddiant a gwybodaeth yr adran Adnoddau Dynol i staff sydd newydd ddechrau.

Ar hyn o bryd cyfraddau cwblhau'r modiwl iechyd a diogelwch ar-lein yw'r unig weithgaredd hyfforddi mesuradwy sy'n medru dangos bod staff newydd wedi derbyn sesiwn gynefino ar iechyd a diogelwch. Nid yw cofnodion lleol am sesiynau cynefino'n cael eu cadw na'u cofnodi'n ganolog gan olygu na ellir cyfeirio atynt na'u mesur.

| Y targed ar gyfer 2023/24 oedd 90% | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran y staff newydd (a wahoddwyd) a gwblhaodd sesiwn gynefino iechyd a diogelwch y brifysgol ar-lein[1] | **41.11%** | **Gostyngiad sylweddol** ar y perfformiad o 67% yn 22/23 |

Mae cyfraddau cyfranogiad staff newydd mewn sesiynau cynefino ar iechyd a diogelwch wedi bod yn is na'r perfformiad disgwyliedig ers sawl blwyddyn.





[1] Nid yw'r ffigur yn cynnwys rhai staff llaw, staff a gaiff eu talu fesul awr a staff achlysurol sy'n gorfod cwblhau sesiynau cynefino iechyd a diogelwch yn lleol

Ac eithrio blwyddyn academaidd 20/21 yr effeithiwyd arni gan y pandemig, mae'r perfformiad ym mlwyddyn academaidd 23/24 yn llawer gwaeth na'r hyn a welwyd yn flaenorol.

- **HYFFORDDIANT A HUNANASESIAD DEFNYDDWYR CYFRIFIADURON**

**DANGOSYDD PERFFORMIAD**




Roedd y gyfradd gwblhau yn dda ac yn dangos gwelliant sylweddol ers y flwyddyn flaenorol.

Defnyddir hyfforddiant defnyddwyr cyfrifiaduron (cyfarpar sgrin arddangos) fel dangosydd perfformiad allweddol wedi ei dargedu ar gyfer iechyd a diogelwch y sefydliad. Mae hyfforddiant perthnasol yn ofynnol dan y rheoliadau cyfarpar sgrin arddangos.

| Y targed ar gyfer 2023/24 oedd 85% o holl ddefnyddwyr cyfarpar sgrin arddangos | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran y defnyddwyr cyfrifiaduron (cyfarpar sgrin arddangos) a gwblhaodd yr hyfforddiant ar-lein a'r hunanasesiad | **83.03%** | **Tuedd ar i fyny** --- Caiff y targed ar gyfer 2024/25 ei godi i 87% o ddefnyddwyr Cyfarpar Sgrin Arddangos yn defnyddio asesiadau dyddiedig |

Yn ystod 2023/24, cwblhaodd **761** (755 yn 22/23) aelod staff yr hyfforddiant a'r hunanasesiad ar-lein i ddefnyddwyr cyfrifiaduron, gan olygu yr amcangyfrifir bod tua 83% o'r holl ddefnyddwyr cyfrifiaduron wedi cwblhau'r hyfforddiant o fewn y cyfnod o 3 blynedd.





Oherwydd y niferoedd isel o staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant a hunanasesiad cyfarpar sgrin arddangos yn 2022/23, gwnaed ymdrech ychwanegol i'w hyrwyddo yn 2023/24, yn enwedig o fewn Colegau a Gwasanaethau unigol. Mae'r perfformiad dilynol yn dangos i hynny fod yn llwyddiannus.

Mae'r tabl isod yn dangos % y 'defnyddwyr cyfrifiaduron' a gwblhaodd yr hyfforddiant a'r hunanasesiadau (y gyfradd gwblhau) ymhob Coleg a Gwasanaeth Proffesiynol.[2]

| **Coleg/Gwasanaeth** | **% y Cyfarpar Sgrin Arddangos** |
|---|---|
| Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas | 82.8% |
| Coleg Gwyddoniaeth a Pheirianneg | 85.9% |
| Coleg Meddygaeth ac Iechyd | 80.8% |
| Canolfan Bedwyr | 62.5% |
| Gwasanaethau Digidol | 100% |
| Gwasanaethau Cyllid | 92.9% |
| Adnoddau Dynol | 84% |
| Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio | 91.4% |
| Gwasanaethau Campws | 71.5% |
| Strategaeth, Cynllunio ac Ymchwil | 95.5% |
| Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr | 70.4% |
| Undeb y Myfyrwyr | 82.6% |
| Swyddfa'r Is-ganghellor | 100% |

- **HYFFORDDIANT RHEOLI**

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** |  |
|---|---|

Pennir disgwyliadau o ran hyfforddiant, cymhwysedd ac ymwybyddiaeth ar gyfer amrywiol uwch-swyddi arweinyddol a rheolaethol, ac ar gyfer swyddi iechyd a diogelwch craidd yn y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol.

Defnyddir canran y staff perthnasol sydd wedi derbyn, mynychu neu gymryd rhan mewn hyfforddiant neu sesiynau briffio iechyd a diogelwch wedyn fel mesur o berfformiad.

| | Lefel hyfforddiant a gyflawnwyd | Tuedd |
|---|---|---|
| Aelodau'r Cyngor | **100%** | Sefydlog |
| Y Bwrdd Gweithredol | **87%** | Sefydlog |
| Penaethiaid Colegau / Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol | **85%** | Gwelliant |
| Cydlynydd/Swyddog Iechyd a Diogelwch (13) | **100%** | Gwelliant |

Dyma'r disgwyliadau sylfaenol o ran cymhwysedd a hyfforddiant:

**Aelodau'r Cyngor:** Presenoldeb neu gyfranogiad mewn sesiwn briffio bwrpasol ar gyfer swyddogaethau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch cyrff llywodraethu.

**Aelodau'r Bwrdd Gweithredol:** Presenoldeb neu gyfranogiad mewn sesiwn briffio bwrpasol ar gyfer swyddogaethau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch y Bwrdd Gweithredol.

**Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol** Presenoldeb mewn sesiwn briffio neu hyfforddiant iechyd a diogelwch

[2] Mae'r data hwn yn seiliedig ar y staff a oedd yn gyflogedig ar 31 Gorffennaf 2024

ar lefel cyfarwyddwr, neu wedi derbyn hyfforddiant ar reoli iechyd a diogelwch.

**Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch:** Cafodd lefel hyfforddiant NEBOSH 'IOSH Rheoli'n Ddiogel' neu 'gwrs pwrpasol' ei sefydlu i bob Coleg/Gwasanaeth Proffesiynol, er mwyn adlewyrchu eu proffiliau risg.

## 5. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU


**DANGOSYDD PERFFORMIAD**



Bu mymryn o gynnydd yng nghyfanswm yr adroddiadau am ddamweiniau, digwyddiadau a damweiniau y bu bron iddynt â digwydd, ac amodau anniogel yn 2023/24, ac roedd nifer yr anafiadau a gofnodwyd yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cafwyd **311** (303 yn y flwyddyn flaenorol) o adroddiadau (heb gynnwys rhai sy'n ymwneud â Chwaraeon).


O'r **311** o adroddiadau, roedd **59** yn ymwneud ag 'anaf' i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr awdurdodedig (*61 yn 2022/23*). Roedd **209** (215) o adroddiadau yn cyfeirio at ddigwyddiadau pan na chafodd neb anaf (gan gynnwys damweiniau y bu bron iddynt â digwydd, sefyllfaoedd peryglus neu anniogel, ymarfer anniogel, achosion o seinio larwm tân, mynd yn sownd mewn lifft, digwyddiadau yn ymwneud â myfyrwyr y tu allan i reolaeth neu ddylanwad uniongyrchol y Brifysgol). Mae'r **43** adroddiad sy'n weddill yn ymwneud â digwyddiadau meddygol (megis llewygu, salwch a ffitiau).




- **DAMWEINIAU'N CYNNWYS ANAFIADAU I STAFF A MYFYRWYR**

Roedd nifer y damweiniau pan anafwyd staff a myfyrwyr fel a ganlyn.

Anafiadau i Staff a Myfyrwyr




**Nodyn:** Effeithiwyd ar y blynyddoedd 19/20 – 21/22 gan y pandemig, pan oedd llai o weithgarwch ar y safle nag y byddai wedi bod yn wir fel arall.

Nifer yr adroddiadau o ddamweiniau i staff a myfyrwyr yn 2023/24 pan gafwyd anaf o ganlyniad i weithgarwch neu astudiaethau yn y brifysgol neu anaf ar dir y brifysgol oedd **46** *(49 yn 22/23)*. O'r nifer hwnnw, roedd **31** *(43)* yn ddamweiniau'n ymwneud â Staff a **15** *(6)* yn ymwneud â Myfyrwyr.

Yn ychwanegol at yr adroddiadau o ddamweiniau pan anafwyd Staff/Myfyrwyr, cafwyd **13** yn rhagor (*12 yn 22/23*) o adroddiadau am ddamweiniau pan anafwyd ymwelwyr a chontractwyr. Mân anafiadau oeddynt i gyd.

- **ANAFIADAU DIFRIFOL (PENODOL)**

Ni chafwyd unrhyw anafiadau difrifol (yn unol â diffiniad RIDDOR) yn ystod y flwyddyn. *Byddai anafiadau difrifol o'r fath yn cynnwys toresgyrn, sgaldiadau sydd angen triniaeth yn yr ysbyty, colli ymwybyddiaeth, llosgiadau difrifol, ac ati.*

- **CYFRADD Y DAMWEINIAU PAN GAFODD RHYWUN EI ANAFU (fesul 1000 mewn Risg)**


**Staff**

Cymhareb y damweiniau pan gafodd staff eu hanafu yn 2023/24 oedd **15.7** o ddamweiniau i bob 1,000 o

weithwyr[3]. Mae hyn yn ostyngiad o'r **21.5**/1000 yr adroddwyd amdanynt yn 2022/23.

Y gyfradd genedlaethol yn 2022/23 (y data diweddaraf sydd ar gael) oedd **16.04**/1000 *(cyfrif pennau).*

Damweiniau'n cynnwys anafiadau yn y sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 **o aelodau STAFF** (2006 – 2023/24)





| 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16.5 | 22 | 21 | 11.5 | 9.6 | 6.9 | 21.5 | 15.7 |
| 25 | 23.64 | 21.05 | 14.62 | 10 | 13.85 | 16.04 | |

## Myfyrwyr

Yn 2023/24, bu **15** (6 *yn 22/23*) o ddamweiniau pan anafwyd myfyrwyr o ganlyniad uniongyrchol i'w hastudiaethau, neu weithgarwch yn y Brifysgol. Mae hyn yn gymhareb o **1.1** (*0.5 yn 22/23*) o ddamweiniau fesul 1,000 o fyfyrwyr[4].

Damweiniau'n cynnwys anafiadau yn y sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 o **FYFYRWYR** (2006 – 2023/24)




| 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.4 | 1.5 | 1.3 | 0.6 | 0.7 | 0.3 | 0.5 | 1.1 |
| 2.7 | 2.6 | 2.9 | 1.83 | 1.27 | 2 | 0.97 | |

**Nodyn ynghylch Adrodd am Ddigwyddiadau**

Yn dilyn y pandemig, gwnaed mwy o ymdrech i hyrwyddo adrodd am ddamweiniau, digwyddiadau a phryderon diogelwch. Gan fod teimlad nad oedd yr adrodd am fân anafiadau'n ddigonol.

Dros y blynyddoedd nesaf, rhagwelir y bydd yr ymdrechion hyn yn arwain at nifer fwy o adroddiadau cyffredinol ac adroddiadau am ddamweiniau sy'n peri anaf. Os digwydd hynny, gall roi rhagor o ffocws ar y math o ddigwyddiadau ac ar dueddiadau yn hytrach na rhoi'r sylw pennaf i gyfanswm y digwyddiadau.

- **DAMWEINIAU ADRODDADWY (RIDDOR)**

Yn ystod y flwyddyn academaidd bu **2** ddamwain / digwyddiad adroddadwy (RIDDOR) y bu'n rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Roedd 1 digwyddiad adroddadwy (RIDDOR) yn ymwneud ag aelod o staff arlwyo a dorrodd ei ll/law wrth dorri darn mawr o gaws. Roedd y digwyddiad adroddadwy (RIDDOR) arall yn ymwneud ag aelod o staff y Ganolfan Rheolaeth a anafodd ei ch/goes ar ôl disgyn o gadair yr oeddent wedi dewis sefyll arni (yn hytrach na defnyddio'r stepiau a ddarparwyd) i atgyweirio bleindiau ffenestr. Golygodd y ddau ddigwyddiad fod yr aelodau staff wedi cymryd dros 7 diwrnod i ffwrdd o'r gwaith.

Cyfradd digwyddiadau adroddadwy (RIDDOR) flynyddol Prifysgol Bangor ar gyfer **Staff** yw 1/1000. Y gyfradd yn 2022/23 oedd 0.5/1000.

| Adroddiadau RIDDOR Blynyddol fesul categori | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Staff** | **Myfyrwyr** | **Ymwelwyr** | **Cyfanswm** |
| 2023/24 | 2 | 0 | 0 | **2** |
| 2022/23 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2021/22 | 0 | 1 | 0 | **1** |
| 2020/21 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2019/20 | 1 | 0 | 0 | **1** |
| 2018/19 | 5 | 1 | 1 | **7** |
| 2017/18 | 0 | 3 | 0 | **3** |
| 2016/17 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2015/16 | 4 | 1 | 0 | **5** |
| 2014 | 7 | 1 | 0 | **8** |

[3] Yn seiliedig ar 1,977 o aelodau staff yn ystod y flwyddyn (cyfrif pennau)


[4] Yn seiliedig ar 13,605 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2013 | 3 | 1 | 1 | **5** |
| 2012 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| 2011 | 3 | 0 | 0 | **3** |
| 2010 | 3 | 3 | 1 | **7** |
| 2009 | 10 | 0 | 2 | **12** |

Nid oedd **unrhyw** Afiechydon Galwedigaethol Adroddadwy na Digwyddiadau Peryglus Adroddadwy yn 2023/24.


- **ACHOSION DAMWEINIAU PAN GAFODD RHYWUN EI ANAFU (pob damwain)**

Roedd mwyafrif y **59** o ddamweiniau pan gafodd rhywun ei anafu (31 staff, 15 myfyrwyr ac 13 arall) naill ai'n ymwneud â digwyddiad codi a chario (14 = 24%), rhywun yn cael ei daro gan wrthrych a oedd yn symud (6 = 10%); llithro, baglu neu syrthio (26 = 44%); rhywun yn taro rhywbeth llonydd / sefydlog (7 = 12%); arall (6 = 10%). Nid oes unrhyw newid nodedig yn y tueddiadau.





- <u>Data Cenedlaethol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2023/24</u>

Mae cymharydd cenedlaethol achosion damweiniau a achosodd anaf, sy'n cael ei adrodd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer damweiniau 'adroddadwy' (RIDDOR) nad ydynt yn angheuol yn dangos yr un 2 (yn unig) achosiad uchaf â'r Brifysgol.




- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU A ACHOSODD I AELODAU STAFF GOLLI AMSER O'R GWAITH**

Cofnodwyd **4**[5] digwyddiadau a achosodd i staff golli amser staff o'r gwaith yn 2023/24, gostyngiad nodedig ers y flwyddyn flaenorol.




Dyma'r 4 digwyddiad a achosodd i staff golli amser o'r gwaith:

- 1 – aelod o staff yn troi ei ffêr wrth gerdded i fyny ramp gymedrol.
- 1 – aelod o staff wedi tynnu cyhyr yn y goes ar ôl disgyn oddi ar gadair yr oeddent wedi sefyll arni.

[5] Ni chollodd yr aelod o staff arlwyo a anafwyd yn y digwyddiad adroddadwy (RIDDOR) unrhyw amser o'r gwaith gan mae cael eu talu ar gyfradd yr awr oeddent ac nid oedd trefniant iddynt weithio yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, pe byddai trefniant wedi bod iddynt weithio, ni fyddai wedi bod yn bosibl iddynt wneud hynny oherwydd ei anaf, ac felly roedd yn ddigwyddiad adroddadwy (RIDDOR) yn hytrach na bod yn adroddiad o golli amser o'r gwaith.


- 1 – aelod o staff wedi cael toriad uwchben ei l/lygad ar ôl cael ei d/tharo gan ddolen drws llithro cerbyd.
- 1 – aelod o staff yn dioddef o gur pen ar ôl taro ei b/phen ar fraced teledu tra'n newid offer TG.

- **DIGWYDDIADAU'N YMWNEUD Â CHWARAEON**

Cafwyd **157** (130) o adroddiadau am ddigwyddiadau'n ymwneud â chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd), yn bennaf am anafiadau sy'n digwydd yn anochel wrth gymryd rhan mewn rhai chwaraeon cystadleuol sy'n gorfforol heriol.

- **CYFRADDAU A DIGWYDDIADAU WRTH DEITHIO DRAMOR**


**Sylwer:** Mae'r Adolygiad o Deithiau Tramor, fel yr adroddir mewn man arall yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, yn nodi na ellir ystyried bod cyfanswm y digwyddiadau wrth deithio dramor yn ystod y flwyddyn, a fyddai'n cael eu darparu yn yr Adran hon fel rheol, yn gywir mwyach. Felly, ni ddarperir data ar gyfer 'hysbysiadau teithiau tramor' eleni.




Yn ystod 2023/24, ni adroddwyd am unrhyw anafiadau yn ystod ymweliadau tramor.

O ran digwyddiadau yswiriant, ffeiliwyd **7** hawliad yn dilyn teithio dramor. Roedd **2** ohonynt yn ymwneud â phroblemau meddygol neu broblemau iechyd a ddigwyddodd dramor:

- Bu'n rhaid i 1 ddychwelyd yn gynnar am resymau meddygol na chredir eu bod yn gysylltiedig â'u gweithgaredd dramor.
- Cafodd 1 driniaeth feddygol leol ar ôl dioddef adwaith alergaidd.




Roedd hawliadau eraill yn ymwneud â'r canlynol:

- 2 yn gysylltiedig â materion neu ddigwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Brifysgol.
- 1 achos o darfu ar drefniadau teithio, ar ôl i rywun gymryd gwystl mewn rhan arall o'r maes awyr.
- 2 achos o ladrad / colled (e.e. dogfennau teithio, waled).

- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â CHERBYDAU**

Cerbydau Llog y Brifysgol (prif ddarparwr).
Mae'r agwedd hon ar ddefnyddio cerbydau'n cael ei gwerthuso fel dangosydd risg ar gyfer 'gyrru cysylltiedig â gwaith' gan ddefnyddio cerbydau llog.

Yn ystod 2023/24, cafodd car ei logi ar **284** (*409 yn 2022/23)* o achlysuron unigol, dros gyfanswm o **1,059** (*1,124 yn 2022/23*) o ddyddiau.

Cyfanswm y pellter a deithiwyd oedd **114,258**[6] (123,801 yn 22/23 a *93,753 o filltiroedd yn 21/22*) ac ni adroddwyd am unrhyw ddamweiniau ffordd.

[6] Data a ddarparwyd gan brif gyflenwr ceir llog y brifysgol, Aberconwy Car Hire

Gwnaethpwyd 5 hawliad yswiriant, a oedd yn ymwneud â fandaliaeth, lladrad, traul, a ffenestr flaen.

| Prif Ddarparwr Cerbydau Llog: Cyfradd y Digwyddiadau[7] | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | | 2022/23 | | 2023/24 | |
| Cyfanswm Diwrnodau | Cyfanswm Milltiroedd | Cyfanswm Diwrnodau | Cyfanswm Milltiroedd | Cyfanswm Diwrnodau | Cyfanswm Milltiroedd |
| 741 | 93,753 | 1,124 | 123,801 | 1,059 | 114,258 |
| Yr Hawliadau Yswiriant a Wnaed | | | | | |
| Nifer y Digwyddiadau /Diwrnodau | Nifer y Digwyddiadau/Milltiroedd | Nifer y Digwyddiadau /Diwrnodau | Nifer y Digwyddiadau/Milltiroedd | Nifer y Digwyddiadau /Diwrnodau | Nifer y Digwyddiadau/Milltiroedd |
| 9.4 / 1000 o ddiwrnodau | 7.5/ 100 mil o filltiroedd | 3.56/ 1000 diwrnod | 3.23 / 100 mil o filltiroedd | 4.7 / 1000 o ddiwrnodau | 4.4/ 100 mil o filltiroedd |
| CYFANSWM YR ANAFIADAU | | CYFANSWM YR ANAFIADAU | | CYFANSWM YR ANAFIADAU | |
| 0 | | 0 | | 0 | |

Sylwer: mae'r tabl hwn yn berthnasol i'r prif ddarparwr cerbydau llog yn unig.

Fflyd Cerbydau'r Brifysgol

Y Gwasanaethau Campws yw'r defnyddiwr cerbydau unigol mwyaf yn y Brifysgol, yn rhedeg 35 o gerbydau ffordd yn 2023/24. Roedd gweddill y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol yn rhedeg 9 cerbyd arall (nid yw hyn yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr).

Mae'r **44** o gerbydau yr oedd y brifysgol yn berchen arnynt/yn eu prydlesu wedi teithio **147,279** o filltiroedd yn ystod y flwyddyn.

Hawliadau Yswiriant (yr holl gerbydau llog a'r fflyd cerbydau)

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed **13** o hawliadau'n defnyddio yswiriant cerbydau. Roedd 7 ohonynt yn ymwneud â fflyd cerbydau'r brifysgol a 6 yn ymwneud â cherbydau wedi'u llogi a ddefnyddir ar gyfer busnes y Brifysgol.

Roedd 11 o'r 13 hawliad yn ymwneud â difrod a ddigwyddodd pan nad oedd unrhyw un yn y cerbydau (roedd 6 yn ymwneud ag un achos o fandaliaeth dros nos pan ddifrodwyd drychau ochr cerbydau fflyd). Roedd 1 hawliad am ddifrod i gerbyd ar ôl i yrrwr fwrw yn erbyn wal wrth facio. Roedd yr hawliad arall i atgyweirio traul cyffredinol ar ôl i gar llog gael ei ddychwelyd.

Ni anafwyd neb o ganlyniad i'r 13 digwyddiad ac ni adroddwyd am unrhyw anaf arall a ddigwyddodd oherwydd defnyddio cerbydau wrth weithio i'r Brifysgol.

Digwyddiadau pan na wnaed Hawliadau Yswiriant

Yn ogystal â'r digwyddiadau sy'n cael eu crynhoi uchod, roedd 2 ddigwyddiad arall yn ymwneud â defnyddio cerbydau.

- Trawyd drych un o gerbydau'r brifysgol gan gerbyd a oedd yn dod tuag ato, gan achosi difrod.
- Baciodd un o gerbydau gwaith y Brifysgol i mewn i folard ar y campws, gan wneud tolc yn nrysau cefn y cerbyd.

Cerbydau Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn endid cyfreithiol ar wahân gyda'i yswirwyr ei hun. Yn ystod 2023/24 roedd Undeb y Myfyrwyr 'yn berchen ar/yn prydlesu' 7 cerbyd: sef 4 bws mini[8], 2 gerbyd aml-berson a 2 fan gludo nwyddau.

Ni adroddwyd am unrhyw anafiadau mewn damweiniau ffyrdd ac ni wnaed unrhyw hawliadau yswiriant ar gyfer cerbydau Undeb y Myfyrwyr yn ystod y flwyddyn.

Ni ellir pennu cyfanswm y milltiroedd a deithiwyd yng ngherbydau Undeb y Myfyrwyr yn 2023/24 gan fod y bysiau mini wedi'u dychwelyd i'r cwmni prydles yn ystod yr haf.

Cyfanswm y milltiroedd ar gyfer y 2 gerbyd aml-berson ac 1 fan oedd 16,841.

[7] Yn ddefnyddio cyfanswm y digwyddiadau (5) fesul **diwrnodau llogi a milltiredd** ar gyfer un darparwr cerbydau (llogi), Aberconwy Car Hire

[8] Cafodd y bysiau mini eu dychwelyd i'r cwmni prydles yn ystod yr haf


- **MONITRO SAFLEOEDD (ADEILADU A CHYNNAL A CHADW)**

Cafwyd gwelliant sylweddol eleni yn nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd, ac ni nodwyd unrhyw bryder diogelwch difrifol.

Yn ogystal â'r gwaith rheoli a goruchwylio beunyddiol, bydd staff y Gwasanaethau Campws yn cynnal archwiliadau safle iechyd a diogelwch ffurfiol i gadarnhau a monitro bod contractwyr a staff cynnal a chadw'r Brifysgol yn gweithio'n ddiogel. Yn ogystal, mae'r Contractwr Cyfnod Penodol a benodwyd yn cynnal Arolygiadau Safle o weithgareddau Contractwyr y mae yn eu cyflogi neu'n eu rheoli.

Mae'r archwiliadau hynny'n ceisio cadarnhau nad oes neb yn cael ei roi mewn perygl oherwydd gweithgarwch Contractwr i'r Gwasanaethau Campws neu oherwydd gweithgarwch cynnal a chadw.

Yn ystod 2023/24 cynhaliwyd **405** o archwiliadau safle ffurfiol, cynnydd sylweddol ar y 282 a gynhaliwyd yn 22/23.




*Mae'r siart uchod yn dangos cyfanswm yr archwiliadau safle a gynhaliwyd, a % y rhai pan welwyd: Safon Dda, Rhybudd yn cael ei roi, neu Dor-diogelwch Difrifol Wedi'i Nodi.*


Mae hefyd yn ofynnol i gontractwyr (cwmnïau) ac mewn llawer o achosion eu staff goruchwylio allweddol, ymgymryd â sesiwn gynefino benodol y Gwasanaethau Campws sy'n rhoi sylw i safonau gweithredu a diogelwch, a byddai'r unigolion hynny wedyn yn rhannu'r wybodaeth a gawsant â gweithwyr y Contractwr, a'u his-gontractwyr.

Yn ystod 2023/24, darparwyd **220** o sesiynau cynefino i gontractwyr gan y Gwasanaethau Campws, sef cynnydd o **55%** ar y 142 a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

*Mae nifer y sesiynau cynefino'n adlewyrchu pa mor rhagweithiol yw'r Gwasanaethau Campws, a nifer y contractwyr newydd a gyflogir.*

## 6. GWYLIADWRIAETH IECHYD

**DANGOSYDD PERFFORMIAD**



Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol ar iechyd a oedd yn gysylltiedig â gwaith.


Cynhaliwyd gwyliadwriaeth iechyd a monitro iechyd gydag oddeutu **98** aelod o Staff i gadarnhau nad oedd eu gwaith yn niweidio eu hiechyd.

Darperir gwyliadwriaeth, o wahanol fathau, i aelodau staff os ydynt yn gwneud defnydd o offer sy'n dirgrynu ac yn cael eu hamlygu i lefelau sŵn uchel iawn yn rheolaidd, ac i nifer o wyddonwyr ymchwil, staff technegol a staff cynnal tiroedd, gweithwyr shifftiau, gyrwyr ar gontract a staff sy'n trin anifeiliaid.

Darperir gwyliadwriaeth iechyd yn bennaf i gadarnhau nad yw rhai risgiau penodol yn y gweithle'n cael effaith andwyol ar eu hiechyd.

## 7. LARYMAU TÂN YN CANU

**DANGOSYDD PERFFORMIAD**




Roedd gostyngiad nodedig yn nifer y larymau tân a ganodd heb i hynny fod wedi ei gynllunio.

Mae dros gant o adeiladau yn ystad y Brifysgol. Caiff y mwyafrif eu diogelu gan systemau canfod tân awtomatig a larymau tân. Mae tua 9,000 o synwyryddion mwg/gwres wedi eu gosod ledled yr ystad.

Yn ystod 2023/24, cafwyd 102 o achosion o larymau tân yn canu yn adeiladau'r Brifysgol, gostyngiad o **17.1%** ar y 125 yn 2022/23.


Larymau Tân yn Canu 2012 – 23/24




Cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eu galw i **30 digwyddiad**, cynnydd ar y 22 achlysur yn 22/23.

Roedd **26** o'r achlysuron pan gafodd y Gwasanaeth Tân ac Achub eu galw *(17 yn 22/23)* yn alwadau i Neuaddau Preswyl gyda'r nos ac yn oriau mân y bore (rhwng 8pm ac 8am).

Gellir is-rannu cyfanswm yr achlysuron pan ganodd larymau tân heb i hynny fod wedi ei gynllunio (102) i ddynodi'r gyfradd ar gyfer adeiladau preswyl ac adeiladau academaidd/gweinyddol yn ystad y Brifysgol.




Bu gostyngiad sylweddol yn sawl gwaith y canodd larymau tân mewn adeiladau academaidd a gweinyddol i **43** yn 2023/24, i lawr o 63 yn 22/23.

Bu gostyngiad bach yn sawl gwaith y canodd larymau tân mewn neuaddau preswyl i **59**, i lawr o 62 yn 2022/23.


Bu 3 achos maleisus o ganu larymau tân yn 2023/24 (9 yn 22/23).

Adroddiad a gwerthusir ymhellach yr achlysuron pan fo larymau tân yn canu yn ôl nifer y synwyryddion mwg/tân sydd wedi eu gosod ac yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely astudio sydd ar gael i'w defnyddio. Mae hyn yn darparu dangosydd perfformiad nad effeithir arno'n uniongyrchol gan gynnydd yn nifer y synwyryddion, neu ostyngiad yn nifer yr ystafelloedd gwely astudio sydd ar gael i fyfyrwyr.

Cyfradd yr achosion pan ganodd larymau tân fesul 1000 o synwyryddion

| Ystad | 23/24 | Tuedd |
|---|---|---|
| Neuaddau Preswyl[9] | 13.6/1000 | Gostyngiad |
| Academaidd a Gweinyddol[10] | 9.3/1000 | Gostyngiad |

Larwm Tân yn Canu fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely - Bangor[11]




| 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | 22 | 20 | 17.6 | 13.9 | 24 | 28.7 | 25 | 23.8 |

*Nid oes data ar gyfer cymaryddion cenedlaethol ar gael bellach

[9]Yn seiliedig ar 4335 o synwyryddion mewn neuaddau
Yn seiliedig ar 4630 o synwyryddion mewn adeiladau academaidd

[11]Yn seiliedig ar 2471 o ystafelloedd gwely

- **TANAU**

Cafwyd 2 dân. Roedd 1 yn dân bach ym Mharc y Coleg, ac aeth staff Diogelwch y Brifysgol i ymchwilio a dod o hyd i ddau aelod o'r cyhoedd yn cysgu wrth ymyl y tân, yr oeddent wedi ei gynnau mae'n debyg i gadw'n gynnes. Cawsant eu deffro a galwyd ar y Gwasanaeth Tân i ddiffodd y tân. Cafodd yr unigolion eu hebrwng o'r parc.

Roedd yr ail ddigwyddiad yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd a gafodd wybod nad oedd ystafell ar ei gyfer yn y Ganolfan Rheolaeth, ac aeth allan o'r adeilad a thynnu ei drowsus a'u rhoi ar dân. Fe wnaeth staff y Ganolfan Rheolaeth ddiffodd y tân.

Cafwyd 9 (13) o danau 'y bu bron iddynt â digwydd', sy'n cael eu diffinio fel digwyddiad "mwg a dim fflamau". Roedd 8 ohonynt mewn neuaddau preswyl, 6 yn sgil digwyddiadau coginio ac roedd 2 y tu allan i Neuadd ac wedi eu hachosi mae'n debygol trwy roi stwmp sigarét nad oedd wedi diffodd yn llwyr mewn bin sbwriel. Cafodd yr 1 digwyddiad mewn adeiladau academaidd ei achosi trwy losgi bwyd.

## 8. HAWLIADAU SIFIL (IECHYD A DIOGELWCH / YN YMWNEUD Â DIGWYDDIAD)

Yn 2023/24 ni chafodd unrhyw Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus nac Atebolrwydd Cyflogwyr eu setlo yn ystod y flwyddyn.

## 9. YSTADEGAU'R WEFAN

Yn 2023/24, cafwyd 23,897 **(+22%)** o ymweliadau unigryw â thudalennau gwe Iechyd a Diogelwch, y gall y cyhoedd eu gweld, dyma'r 4 tudalen mwyaf poblogaidd:

- Cyfrifianellau Laser
- Asesiadau Risg
- Nofio
- Hafan

Yn ogystal, bu 9,133 o ymweliadau â thudalennau gwe iechyd a diogelwch FyMangor (9,013 yn 22/23) sy'n hygyrch ddim ond i staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor.

**Diwedd.**